Swydd	Cydlynydd Prosiect, De Orllewin a Chymru
Graddfa cyflog	£20,000-£26,0000 y flwyddyn (yn ddibynnol ar brofiad/cymhwysedd)
Math o swydd	Amser llawn: 37.5 awr yr wythnos
Dechrau	Rhagfyr 2022 / Ionawr 2023
Lleoliad	Mae'n swydd mewn swyddfa, ar hyn o bryd yn ein swyddfa yng Nghaerdydd.
I Ymgeisio	Gallwch uwch lwytho CV a llythyr eglurhaol yn Saesneg i <https://www.surveymonkey.co.uk/r/PVHJMKW> erbyn **9am dydd Llun 7 Tachwedd.** Cofiwch gynnwys enwau a manylion cyswllt dau berson sy'n barod i anfon geirda ac sydd mewn sefyllfa i adrodd amdanoch yn broffesiynol gan nodi'n fyr am ba hyd ac ym mha sefyllfa y maen nhw wedi eich adnabod (ni fyddwn yn cysylltu â chanolwyr cyn sgyrsiau rhagarweiniol).
Rhybudd o restr fer	Prynhawn dydd Iau 10 Tachwedd 2022
Cyfweliadau	Dydd Mercher 16 Tachwedd 2022 yng Nghaerdydd
Hysbysiad	Yn anffodus ni allwn gydnabod derbyn eich ceisiadau. Byddwn yn eich hysbysu i roi gwybod a ydych ar y rhestr fer ond ni allwn roi adborth heblaw eich bod ar y rhestr fer.
Iaith	Oherwydd natur y swydd, byddai'n ddymunol petaech yn medru lefel o gymhwysedd yn y Gymraeg. Bydd rhai nad sy'n rhugl yn y Gymraeg yn derbyn hyfforddiant pellach. Bydd pob ymgeisydd sy'n siarad Cymraeg ac sy'n cyflawni'r meini prawf hanfodol yn cael cyfweliad.
	Mae Live Music Now wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac o'r herwydd rydym yn annog ceisiadau gan bobl sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector diwylliannol a'n sefydliad ni gan gynnwys y rhai sy'n wynebu rhwystrau anabledd neu sydd wedi profi hiliaeth. Bydd pob ymgeisydd anabl sy'n cyflawni'r meini prawf hanfodol yn cael cyfweliad. Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael y cyfle i drafod eu gofynion mynediad ar gyfer y cyfweliad. Mae Live Music Now yn gyflogwr hyblyg a pharod i addasu; mae'n bosibl y gellir gweithio'n hyblyg gan gynnwys o gartref o drafod gyda'r rheolwyr llinell. Os byddwch chi angen cymorth i gwblhau eich cais ar-lein, neu os hoffech chi gyflwyno eich ymatebion mewn fformat gwahanol, gallwch anfon e-bost at emily.roberts@livemusicnow.org.uk neu ffonio 020 7759 1803.

1. Live Music Now

Elusen yw Live Music Now sydd wedi bod yn gweithio ac yn ymgyrchu ers 1977 i greu effaith cymdeithasol, mesuradwy, cynhwysol drwy gerddoriaeth. Drwy harneisio pŵer cysylltiol cerddoriaeth a gwerthuso ei effaith, rydyn ni'n datblygu arfer cerddorol ac yn newid sut rydyn ni'n deall ac yn cefnogi pobl sy'n cael eu tangynrychioli a rhai bregus yn ein cymdeithas. Mae ein gwaith yn gwella ansawdd bywyd, iechyd a llesiant ac yn hybu cyfle cyfartal drwy gydnabod potensial creadigol pob unigolyn.

Yn ganolog i'n theori newid yw'r ymrwymiad i **gynnig effaith cymdeithasol drwy gerddoriaeth.** Rydyn ni'n creu'r effaith cymdeithasol drwy gerddorion. Rydym yn ystyried y rhain fel ein partneriaid mwyaf gwerthfawr a'n hased mwyaf ac yn ceisio cyflawni'r angen cynyddol gan ein cymunedau sy'n wynebu gwaharddiad cymdeithasol ac anfanteision.

Rydym yn cyflawni hyn drwy dri ymrwymiad:

1. Cefnogi bywydau cerddorol pobl sy'n profi anfanteision a gwaharddiad cymdeithasol
2. Datblygu a chefnogi'r gweithlu o gerddorion proffesiynol i sicrhau safon ymarfer, delio â thangynrychiolaeth drwy greu llwybrau cynhwysol i yrfaoedd posibl a sicrhau'r deilliannau gorau i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.
3. Hyrwyddo a phrofi buddiannau trawsffurfiol cerddoriaeth fyw ar ddysgu, datblygu, iechyd a lles.

Rydyn ni'n cyflogi ac yn hyfforddi dros 300 o gerddorion proffesiynol i weithio gyda phobl hŷn (nifer yn byw gyda dementia), plant a phobl ifanc (CYP) sy'n wynebu rhwystrau anableddau, blynyddoedd cynnar a theuluoedd, gofalwyr a gweithwyr allweddol sy'n cefnogi eraill.

Mae ein gwaith yn cyrraedd dros 85,000 o bobl, yn bersonol ac ar-lein, gan berfformio, cydweithio ar a chreu cerddoriaeth drwy sesiynau 1:1 a grŵp, mewn sefyllfaoedd gofal, ysgolion arbennig ac ysbytai a chyngherddau. Mae ein gwaith yn helpu cyfranogwyr y gyfathrebu a chreu cysylltiadau cymdeithasol, datblygu sgiliau a chynyddu hyder a gwytnwch.

Mae ein rhaglenni'n cael eu tanategu gan ymchwil a phartneriaethau traws-sector ar draws Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon ac yn rhyngwladol. I gael mwy o wybodaeth ewch i our website

2. Strwythur Trefniannol

Mae Live Music Now yn gweithredu ar draws y DU gydag agwedd sy'n cwmpasu'r tair gwlad sef Cymru, Lloegr ac Iwerddon. Mae gennym sefydliad tebyg yn yr Alban ac rydym yn cydweithio'n rhyngwladol gyda sefydliadau Live Music Now yn Ewrop a thu hwnt.

Mae tîm o Gyfarwyddwyr Strategol yn arwain datblygiad gwaith Live Music Now ym meysydd Gofal Cymdeithasol Oedolion, Gofal Iechyd, Datblygiad Plant a Phobl Ifanc a Cherddorion. Mae'n cael ei gyflenwi drwy rwydwaith o dimau ar draws y DU. Mae Cyfarwyddwr yn arwain pob tîm ac yn adrodd yn ôl i'r Cyfarwyddwr Gweithredol. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn adrodd yn ôl i'r Prif Weithredwr sydd yn ei dro/thro'n adrodd yn ôl i'r Cadeirydd a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr.

3. Swydd Cydlynydd Prosiect, De Orllewin a Chymru

Mae'r swydd hon yn un newydd ac wedi'i chreu i gefnogi ein canghennau yn y De Ddwyrain a Chymru ar gymhareb 40:60 a bydd wedi'i lleoli yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. Fel y pwynt cyswllt cyntaf gydag arweiniad o ddydd i ddydd ac yn gweithio'n agos gyda'r Rheolwyr Prosiectau ac yn cael ei reoli'n uniongyrchol gan y cyfarwyddwyr cangen/cenedlaethol, bydd y swydd hon yn ymwneud â rheoli prosiectau a digwyddiadau gan gynnwys cysylltu gyda lleoliadau a cherddorion ac yn gyfrifol

am fewnbynnu a rheoli'r gronfa ddata a rheoli'r swyddfa. Bydd y swydd hon yn ymwneud rhywfaint â marchnata a dosbarthu cyfathrebu, rheoli cronfa ddata codi arian, prosesu a chodio anfonebau a hefyd coladu adborth.

Mae'r swydd hon yn fan cychwyn i mewn i'n sefydliad a bydd datblygu swydd dros amser ar gael i unrhyw un sydd â diddordeb mewn datblygu gyrfa.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

Cydlynu Prosiect

- Cefnogi'r Rheolwyr Prosiectau wrth gydlynu prosiectau a gwaith mewn preswylfeydd;
- Mewnbynnu digwyddiadau i'r gronfa ddata a chreu cytundebau, amserlenni a ffurflenni adborth ar gyfer cerddorion a lleoliadau fesul prosiect;
- Cysylltu gyda lleoliadau ynglŷn â chreu dogfennau o weithgareddau drwy luniau, ffilm a systemau sain mewn cysylltiad gyda staff perthnasol Live Music Now, a sicrhau caniatâd i alluogi Live Music Now i ddefnyddio delweddau a ffilm;
- Cefnogi'r Rheolwyr Prosiectau wrth gydlynu CPD a threfnu cyfarfodydd yn ymwneud â'r prosiectau.

Gweinyddu a Rheoli Swyddfa

- Gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau sy'n dod i'r canghennau;
- Mewnbynnu adborth/ gwerthusiad o leoliadau, cyfranogwyr a cherddorion mewn cronfa ddata/ arolwg mwnci yn ôl y galw;
- Cadw manylion cyswllt cyfoes i gerddorion, grŵp cynghori a lleoliadau yn y gronfa ddata;
- Diweddaru dyddiaduron cyngherddau fel sy'n briodol gyda phob gweithgaredd yn y canghennau
- Cyfrifoldeb dros gynnal a chadw systemau rheoli swyddfa fel ffeilio a phost;
- Ymchwilio i a llogi lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor, sesiynau hyfforddi ayyb yn ôl y gofyn;
- Cydlynu benthyciadau cyfarpar i gerddorion yn ôl y galw;
- Cefnogi Cyfarwyddwyr Cangen a Chenedlaethol i wasanaethu Pwyllgorau De Orllewin a Chymru LMN gan ddarparu diweddariadau rheolaidd am weithgareddau'r dyfodol yn rheolaidd;
- Cymryd cofnodion mewn cyfarfodydd pwyllgorau Ymgynghorol LMN yn chwarterol ;
- Diweddaru dyddiadur ar-lein y swyddfa yn ôl y gofyn.

Rheoli Cerddorion

- Cefnogi gyda chysyllt â'r broses o recriwtio cerddorion gan gynnwys trefnu perfformiadau arsylwi yn y maes ar gyfer recriwtiaid posibl;
- Helpu gyda rheoli gwiriadau DBS i'r holl gerddorion newydd yn unol â pholisi Diogelu Live Music Now;
- Diweddaru bywgraffiadau a lluniau cerddorion sy'n wynebu'r cyhoedd yn unol â pholisi Cysylltiadau Live Music Now.

Tasgau Ychwanegol

- Mynychu digwyddiadau'n achlysurol i roi cefnogaeth gyffredinol neu reoli digwyddiad;
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn unol â chais gan y Cyfarwyddwr Cangen/Cenedlaethol ac sy'n berthnasol i'r swydd hon.

4. Telerau ac Amodau

Mae cytundeb y swydd yn barhaol. Bydd y cyflog yn £20,000-£26,000 y flwyddyn (yn ddibynnol ar brofiad/cymhwysedd) dros 37.5 awr yr wythnos a bydd yn cael ei dalu'n fisol fel ôl-ddyled yn unol ag unrhyw ddidyniadau PAYE priodol.

a) Mae'r penodiad yn ddibynnol ar:
   i) Rhybudd terfyniad o bedair wythnos gan y ddwy ochr.
   ii) Cyfnod prawf o dri mis.

b) Gweithio min nos neu ar benwythnos. Nid oes unrhyw dâl dros amser ond gellir trefnu amser I ffwrdd yn lle hynny.

c) Mae swyddfa'r gangen wedi'i lleoli ar hyn o bryd yng Nghaerdydd.

d) Mae Live Music Now yn darparu cynllun pensiwn ar gyfer pob aelod cymwys o'r staff ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf yn llwyddiannus. Bydd yn cael ei dalu drwy'r cyflog. Mae'r sefydliad yn rhoi cyfraniad o 3% o'ch cyflog i'r cynllun ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf.

5. Cyfle Cyfartal

Mae Live Music Now wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac felly rydym yn annog ceisiadau oddi wrth bobl sy'n cael eu tan-gynrychioli yn y sector diwylliannol a'n sefydliad gan gynnwys y rhai sy'n wynebu rhwystrau anabledd neu sydd wedi profi hiliaeth.

Bydd pob ymgeisydd anabl sy'n cyflawni'r meini prawf hanfodol yn cael cyfweliad. Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael cyfle i drafod eu gofynion mynediad ar gyfer y cyfweliad.

Bydd pob ymgeisydd sy'n siarad Cymraeg ac sy'n cyflawni'r meini prawf hanfodol yn cael cyfweliad.

Mae Live Music Now yn gyflogwr hyblyg ac un sy'n addasu; mae'n bosibl gweithio'n hyblyg neu o gartref o drafod gyda'r rheolwyr llinell.

Os byddwch chi angen help i gwblhau eich cais ar-lein neu os hoffech gyflwyno eich ymatebion mewn fformat gwahanol, gallwch anfon e-bost at emily.roberts@livemusicnow.org.uk neu ffonio 020 7759 1803.

Nodiadau
Mae pob swydd yn ddibynnol ar newid o bryd i'w gilydd a bydd y disgrifiad swydd hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r disgrifiad swydd yn arweiniad i'r gwaith y bydd yn rhaid i chi ei gyflawni ac mae'n cynrychioli ystod o gyfrifoldebau yn unol â graddfa'r swydd.

Eich data a'ch preifatrwydd
Bydd holl ddata ymgeiswyr yn cael ei gadw ar ein system yn ystod cyfnod y cyfweliad ar gyfer defnydd mewnol yn unig. Ar ôl y cyfnod hwn, dim ond data personol a geirda'r ymgeisydd llwyddiannus fydd yn cael ei gadw: bydd holl ddata ymgeisydd aflwyddiannus yn cael eu dinistrio neu eu dileu o'n cofnodion. Mae Live Music Now wedi ymrwymo i beidio â gwerthu na rhoi data unigolion i gwmnïau allanol. Gweler ein Polisi Data a Phreifatrwydd I gael mwy o fanylion.

I gael y newyddion diweddaraf am waith a newyddion Live Music Now, arwyddwch i gael ein taflen newyddion ar ein gwefan ar www.livemusicnow.org.uk

Cydlynydd Prosiect Live Music Now, De Orllewin a Chymru: Manyleb Bersonol

	Hanfodol	Dymunol	Aseswyd
Profiad			
O leiaf 6 mis o brofiad mewn swydd gweinyddu swyddfa flaenorol neu gyfatebol drwy waith gwirfoddoli a/ neu brofiad gwaith.	x		Cais a chyfweliad
Rhywfaint o brofiad mewn sefydliad celfyddydol neu effaith cymdeithasol neu rywfaint o brofiad o weithgaredd estyn allan/cyfranogiad cymunedol.		x	Cais a chyfweliad
Sgiliau/cymhwyster			
Sgiliau trefnu amlwg a'r gallu i drefnu llwyth gwaith amrywiol yn gyflym	x		Cais a chyfweliad
Effeithlonrwydd wrth reoli systemau swyddfa gan dalu sylw i fanylion.	x		Cais a chyfweliad
Sgiliau TG da (Excel, Word, Outlook, PowerPoint, cronfa ddata).	x		Cais, Prawf a chyfweliad
Sgiliau trefnu a rheoli amser cadarn ynghyd ag arddull dda ar y ffôn.	x		Cais a chyfweliad
Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ysgrifenedig a llafar, gyda pharodrwydd i ymwneud ag ystod amrywiol o bartneriaid.	x		Cais, Prawf a chyfweliad
Cyllid			
Gwybodaeth a rhywfaint o brofiad o weithio o fewn cyllidebau.		x	Cais a chyfweliad
Gwybodaeth ac ymagwedd			
Diddordeb mewn datblygiad proffesiynol cerddorion ifanc.		x	Cais a chyfweliad
Angerdd dros ac ymrwymiad i botensial cerddoriaeth fel offeryn ar gyfer newid cymdeithasol a'i effaith ar gyfranogwyr a cherddorion.		x	Cais a chyfweliad
Agwedd agored tuag at bob math o gerddoriaeth.	x		Cais a chyfweliad
Diddordeb mewn budd cymdeithasol a datblygu mynediad i'r celfyddydau i bobl anabl a rhai sydd dan anfantais.		x	Cais a chyfweliad
Cyffredinol			
Egnïol, creadigol, hunan-symbylus ac ymrwymedig.	x		Cyfweliad
Barod i ddatblygu ac uchelgeisiol, gallu i osod blaenoriaethau, cyflawni targedau a gweithio'n unigol tra'n gweithredu fel rhan o dîm ehangach o dan gyfarwyddyd.	x		Cais a chyfweliad
Gallu cadw'n dawel o dan bwysau a datrys problemau.	x		Cais, Prawf a chyfweliad
Cymhwyster siarad Cymraeg neu ymrwymiad i ddysgu Cymraeg.	x		Cais a chyfweliad